Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid

# Strategaeth Monitro DRAFFT ac Adrodd Cymru

## Cynnwys


**Cyflwyniad** .... 3

**Nodau'r Strategaeth Monitro ac Adrodd** .... 5

**Ein dull o fonitro** .... 6

**Ein dull o adrodd** .... 9

**Beth sy'n digwydd pan fydd gennym bryderon?** .... 9

**Atodiad 1: Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Penodol** .... 11

- **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)** .... 11
- **Estyn** .... 11
- **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** .... 12

**Atodiad 2: Materion Trawsffiniol – Cydweithio ag Ofsted a'r Comisiwn Ansawdd Gofal** .... 14

**Atodiad 3 – Geirfa** .... 15

# Cyflwyniad

Mae'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn system newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 y DU, sy'n disodli'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid. Maent yn weithdrefnau angenrheidiol yn y gyfraith i ddiogelu hawliau dynol Erthygl 5 (hawl i ryddid) pobl. Pan fo trefniadau gofal, cymorth a thriniaeth yn gyfystyr ag amddifadu unigolyn o'i ryddid oherwydd graddau'r cyfyngiadau neu gaethiwed sydd ynghlwm wrthynt, rhaid ceisio'r awdurdod cyfreithlon priodol i ddechrau neu barhau â'r trefniadau hynny.

Mae'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid / Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, sef y fframwaith cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr ynghylch sut y gwneir penderfyniadau pan nad oes gan unigolyn y galluedd meddyliol i wneud y penderfyniad hwnnw drosto'i hun, er enghraifft oherwydd anabledd dysgu, strôc, anaf i'r ymennydd, anhwylder meddwl neu ddementia.

Amcanion polisi ac effeithiau arfaethedig Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 yw:

- Creu fframwaith cyfreithiol symlach newydd sy'n hygyrch ac yn glir i'r holl bartïon yr effeithir arnynt.
- Sicrhau canlyniadau gwell i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid a'u teuluoedd / gofalwyr di-dâl.
- Darparu proses awdurdodi symlach sy'n gallu gweithredu'n effeithiol ym mhob lleoliad.
- Sicrhau bod y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn gweithio fel y bwriadwyd, drwy roi'r unigolyn wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau a sicrhau ei bod yn cydymffurfio ag Erthygl 5 (hawl i ryddid) ac 8 (parch at fywyd teuluol) o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.
- Darparu mecanwaith cynhwysfawr, cymesur a chyfreithlon ar gyfer awdurdodi amddifadu pobl ifanc 16 a 17 oed o'u rhyddid.

Ar ran Gweinidogion Cymru, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi monitro ac adrodd ar y system ar gyfer awdurdodi trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid o dan y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid. Roedd hyn yn ymwneud â threfniadau mewn cartrefi gofal ac ysbytai ac â phobl 18 oed a hŷn.

Mae'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn ymestyn i bob lleoliad, gan gynnwys cartrefi gofal, cartrefi nyrsio, ysbytai, lleoliadau byw â chymorth, cartrefi pobl eu hunain, gwasanaethau dydd, tai gwarchod, gwasanaethau cysylltu bywydau, a lleoliadau addysg ôl-16 arbenigol. Mae hefyd yn ymestyn i gynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed.

Mae hyn yn golygu bod Estyn hefyd yn cael ei enwi fel corff monitro at ddiben monitro'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yng Nghymru. Mae hyn yn adlewyrchu rolau strategol ehangach yr arolygiaethau wrth fonitro ac adrodd ar arweinyddiaeth ac arferion ar draws y sectorau gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg yng Nghymru.

## Nodau'r Strategaeth Monitro ac Adrodd

Yng Nghymru, y cyrff monitro sy'n gyfrifol am fonitro gweithrediad y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid. Cânt eu cyflawni gan Arolygiaeth Iechyd Cymru [AGIC] ac Arolygiaeth Gofal Cymru [AGC] ac, mewn perthynas â lleoliadau addysg, cyflawnir y swyddogaeth hefyd gan Estyn.

Mae'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid wedi'u cynllunio i sicrhau bod pobl ond yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid os yw hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur a'u bod yn cael eu darparu â mesurau diogelu i amddiffyn eu hawliau. Er mwyn rhoi sicrwydd bod y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn cael eu gweithredu'n gywir, mae'n bwysig bod mecanwaith effeithiol ar gyfer monitro'r defnydd o'r mesurau diogelu.

Bydd ein gwaith i fonitro ac adrodd ar weithrediad y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn cael ei arwain gan yr egwyddorion canlynol. Byddwn yn:

- Sicrhau bod y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn gweithio yn ôl y bwriad, drwy roi'r unigolyn wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau a sicrhau ei bod yn cydymffurfio ag Erthygl 5 ac 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.
- Sicrhau bod ein gwaith monitro ac adrodd yn tynnu ar dystiolaeth uniongyrchol ac yn defnyddio safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol ym mhroses y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid.
- Cymhwyso'r egwyddor o gydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg i'n holl waith monitro ac adrodd.
- Sicrhau bod ein gwaith yn hyrwyddo gofal iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg o ansawdd uchel sy'n amddiffyn ac yn hybu iechyd, diogelwch a llesiant pobl.
- Cydweithio, cydweithredu a chyfathrebu'n agored am bryderon, materion neu gyfleoedd mawr.
- Gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau cyfunol trwy gydlynu priodol, dysgu ar y cyd a rhannu gwybodaeth.
- Glynu at ofynion statudol ac arferion gorau. Cydymffurfio â deddfau a safonau perthnasol, gan gynnwys deddfwriaeth diogelu data a rhyddid gwybodaeth.

Nodau system monitro ac adrodd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yw sicrhau'r canlynol:

- Nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon.
- Rhoi sicrwydd bod y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn gweithredu'n effeithiol.
- Atal camdriniaeth (sy'n cyd-fynd â Phrotocol Gweithredol y Confensiwn yn Erbyn Artaith – OPCAT), gan gynnwys amddifadu o ryddid heb awdurdod mewn rhai achosion.
- Goruchwylio a nodi tueddiadau cenedlaethol (lefel Cymru) yng ngweithrediad y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid.
- Hyrwyddo gwelliant trwy nodi argymhellion a rhannu arferion effeithiol.

Er mwyn hyrwyddo safonau uchel a chefnogi’r nodau cyffredinol hyn, mae’r strategaeth yn manylu ar y canlynol:

- Ein dull o fonitro
- Ein dull o adrodd
- Beth sy'n digwydd pan fydd gennym bryderon ynghylch ymarfer?

Mae AGC, AGIC ac Estyn [gweler Atodiad 1] yn cydnabod eu priod gyfrifoldebau a swyddogaethau statudol ac anstatudol, a byddant yn ystyried y rhain wrth gydweithio. Mae'r un peth yn wir wrth weithio gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal a'r Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau [Ofsted] fel y cyrff monitro yn Lloegr.

Gall y fframweithiau cyfreithiol sy’n llywodraethu lleoliadau trawsffiniol yn y DU fod yn gymhleth a gallant amrywio rhwng awdurdodaethau. Pan fydd y defnydd o’r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn cael ei ystyried, mae’n bwysig, fel ym mhob achos trawsffiniol, sicrhau bod dull gweithredu sy’n canolbwyntio ar unigolion yn cael ei ddefnyddio drwyddo draw a bod awdurdodau’n cydweithio [gweler Atodiad 2].

## Ein dull o fonitro

Bydd ein ffocws ar sicrhau'r canlynol:

- Bod cyrff cyfrifol yn cynnal hawliau pobl drwy roi'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ar waith yn effeithiol, yn gymesur ac yn effeithlon.
- Nad yw pobl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid heb awdurdod.
- Cyflawnir unrhyw amddifadedd awdurdodedig yn gymesur ac yn unol â'r awdurdodiad.
- Gofynnir am awdurdodiadau lle bo'n briodol.
- Bod hawliau pobl yn cael eu hamddiffyn a bod trefniadau gofal, cymorth a thriniaeth sy'n gyfystyr ag achos o amddifadu o ryddid yn cael eu hasesu, eu hawdurdodi a'u hadolygu'n briodol.
- Ymgynghorwyd â'r unigolyn a rhai eraill cyn belled ag y bo'n ymarferol ac yn briodol ynghylch dymuniadau a theimladau'r unigolyn ynghylch y trefniant ar gyfer ei ofal.
- Bod “person priodol” yn cael ei nodi a'i benodi i gynrychioli a chefnogi'r unigolyn sy'n derbyn gofal. Pan nad oes unrhyw un addas, bod Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol wedi cael ei gyfarwyddo. (O dan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid, mae’r person priodol hefyd yn gallu cael ei gefnogi gan Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol.)
- Bod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch ac yn cael y gofal sydd ei angen arnynt sydd er eu lles gorau ac yn unol â'u dymuniadau eu hunain ac sy'n cynnig y dull lleiaf cyfyngol.
- Bod cyrff cyfrifol a darparwyr gofal yn ystyried yn gyson a ellid rhoi trefniadau amgen ar waith i atal amddifadu o ryddid.

- Bod awdurdodiadau’n cael eu cyflawni’n gywir ac yn gweithio yn unol â dull dim drws anghywir, gydag unrhyw anghydfodau i benderfynu ar gorff cyfrifol perthnasol yn cael eu datrys yn gyflym.
- Bod gwybodaeth yn cael ei rhannu lle bo’n berthnasol am unrhyw bontio rhwng trefniadau gofal.
- Bod pobl yn cael gwybodaeth amserol am yr awdurdodiad, gan gynnwys eu hawl i herio’r awdurdodiad yn y Llys Gwarchod.
- Bod gan staff hyfforddiant a dealltwriaeth briodol i gyflawni eu rolau, a bod gweithlu sy'n ddiwylliannol gymwys ar waith.
- Ceir cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a gofynion monitro AGC/AGIC/Estyn.

Mae rheoliadau Cymru sy’n cefnogi’r gwaith o fonitro ac adrodd ar y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn caniatáu i’r cyrff monitro ofyn am ddata gan gyrff cyfrifol at ddiben cyflawni ein swyddogaethau.

Bydd gwaith monitro yn digwydd ar lefel corff cyfrifol, darparwr a chenedlaethol a bydd yn ein helpu i ddeall sut mae’r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn gweithio yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- sut mae’r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn cael eu hymgorffori wrth gynllunio gofal, cymorth a thriniaeth;
- nifer y ceisiadau am awdurdodiad a wnaed;
- nifer y bobl y mae amddifadiad o'u rhyddid wedi'i awdurdodi ar eu cyfer;
- nifer y ceisiadau sydd heb eu hawdurdodi a'r rhesymau;
- p’un a yw penderfyniadau'n cael eu gwneud o fewn amserlenni priodol ac yn unol â'r cod ymarfer;
- p’un a yw pobl yn cael mynediad at y cymorth y mae ganddynt hawl iddo (er enghraifft, gan berson priodol neu Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol);
- lle rydym yn nodi bod pobl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid heb awdurdodiad.

Fel cyrff monitro, mae gennym y pwerau a ganlyn y gallwn eu harfer mewn perthynas ag awdurdodiadau o dan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid i’n galluogi i gyflawni ein cyfrifoldebau monitro:

- Ymweld â lleoliadau lle mae achos awdurdodedig o amddifadu o ryddid yn cael ei gyflawni.
- Er mwyn ymweld ag anheddau preifat neu rannau o eiddo a ddefnyddir fel anheddau preifat, fel cyrff monitro byddwn yn ceisio caniatâd i ymweld. Gall caniatâd o’r fath hefyd ddod gan rywun heblaw’r unigolyn y mae’r awdurdodiad o dan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn berthnasol iddo – yn dibynnu ar y trefniadau byw, megis perchnogion, meddianwyr neu reolwyr y lle.
- Cyfarfod â'r unigolyn y mae’r awdurdodiad o dan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn berthnasol iddo. Bydd angen i'r unigolyn fod â'r galluedd i gydsynio i gyfarfod â'r corff monitro. Pan nad oes gan yr unigolyn y galluedd i gydsynio i’r cyfarfod, bydd angen i naill ai derbynnydd atwrneiaeth arhosol a

roddwyd gan yr unigolyn neu ddirprwy a benodwyd gan y llys wneud penderfyniad fod y cyfarfod er budd pennaf yr unigolyn. Pan nad oes derbynnydd atwrneiaeth arhosol neu ddirprwy wedi'i benodi gan y llys, bydd angen i unigolyn sy'n ymwneud â gofalu am yr unigolyn neu sydd â diddordeb yn lles yr unigolyn benderfynu bod cyfarfod o'r fath er budd pennaf yr unigolyn.

- Ei gwneud yn ofynnol cael mynediad at gofnodion sy'n ymwneud â gofal, cymorth a thriniaeth yr unigolyn cyn, yn ystod neu ar ôl i ni ymweld â'r lleoliad, a'u harchwilio. Gall cyrff monitro ofyn am gofnodion gan y corff cyfrifol a awdurdododd yr amddifadedd neu'r lleoliad lle mae'r awdurdodiad yn digwydd.
- Cwrdd ag unrhyw unigolyn sy'n ymwneud â gofalu am unigolyn y mae'r awdurdodiad o dan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn berthnasol iddo, neu unigolyn sydd â diddordeb yn ei les, er enghraifft teulu, gofalwyr di-dâl neu ffrindiau.
- Er mwyn cyflawni ein dyletswyddau, fel cyrff monitro gallwn arfer rhai o'n pwerau, os yw'n briodol, ar sail samplu achosion.

Byddwn yn casglu tystiolaeth i gefnogi'r gwaith monitro ac adrodd drwy ystod o ddulliau, a fydd yn cynnwys:

- Monitro data allweddol - bydd yn ofynnol i gyrff cyfrifol hysbysu'r cyrff monitro yn rheolaidd am geisiadau, awdurdodiadau, adnewyddiadau, ac awdurdodiadau sy'n dod i ben o dan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid. Bydd data'n cael ei gasglu'n chwarterol drwy'r Set Ddata Ofynnol Genedlaethol a gyd-gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn sicrhau cysondeb o ran sut mae'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn cael eu monitro ar draws byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yng Nghymru. Bydd y data yn darparu gwybodaeth i lywio gweithgarwch arolygu parhaus yn ogystal â gwaith monitro ac adrodd blynyddol ar y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid.
- Gwybodaeth a gasglwyd o unrhyw adroddiadau a baratowyd gan gyrff cyfrifol ar weithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ar lefel leol neu ranbarthol.
- Gwybodaeth a gasglwyd yn ystod ymgysylltiad parhaus ag uwch-arweinwyr mewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd ar brosesau ac arferion lleol a'r cryfderau a'r heriau o ran sut maent yn rheoli, monitro ac adrodd ar y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid.
- Gwybodaeth gan ddarparwyr gofal a thriniaeth / cymorth ac addysg.
- Monitro'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid fel rhan o arolygiadau arferol o awdurdodau lleol / byrddau iechyd a darparwyr mewn lleoliadau lle mae unigolion yn derbyn gofal, cymorth, triniaeth ac addysg. Bydd canllawiau ar y dull arolygu yn cael eu cyhoeddi gan y corff monitro perthnasol.

Byddwn hefyd yn ystyried a allai arolygiadau thematig cyfnodol neu ddulliau monitro ac adrodd â ffocws fod yn ddefnyddiol.

## Ein dull o adrodd

Fel cyrff monitro Cymru, bydd AGIC, AGC ac Estyn yn cydweithio i gynhyrchu adroddiad blynyddol ar y cyd ar weithrediad y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yng Nghymru. Cyflwynir yr adroddiad i Weinidogion Cymru.

Bydd yr adroddiad blynyddol yn defnyddio tystiolaeth o weithgarwch arolygu a’r casgliad data gofynnol cenedlaethol. Bydd y cyfnod adrodd yn seiliedig ar y flwyddyn ariannol a byddwn yn anelu at gyhoeddi’r adroddiad o fewn chwe mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Yn ogystal â darparu crynodeb o gyflwr presennol y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid, bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei ddefnyddio i amlygu meysydd o arferion da yn ogystal â meysydd sy'n peri pryder. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am sefyllfaoedd y mae cyrff monitro wedi dod ar eu traws yn ystod gweithgarwch arolygu lle maent yn credu y gallai pobl gael eu hamddifadu o'u rhyddid heb awdurdodiad a lle mae cyrff cyfrifol wedi cael eu hysbysu.

Sonnir yn benodol hefyd am unrhyw faterion trawsffiniol.

Yn ogystal ag adroddiadau monitro blynyddol y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid, mae pob corff monitro hefyd yn cynhyrchu adroddiadau o ganlyniad i arolygiadau arferol. Gall yr adroddiadau arolygu hyn hefyd gynnwys manylion am awdurdodiadau o dan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a, lle mae’r adroddiadau hyn yn ymwneud â gwasanaethau sydd â diddordeb trawsffiniol, bydd yr adroddiadau’n cael eu rhannu’n rhagweithiol â sefydliadau perthnasol a enwir.

## Beth sy'n digwydd pan fydd gennym bryderon?

Byddwn yn ymateb yn briodol i bryderon sy'n codi mewn lleoliadau lle mae awdurdodiad o dan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ar waith. Gall pryder gael ei godi cyn, yn ystod neu ar ôl ymweliad. Os yw’r pryder ar unrhyw adeg yn bodloni’r meini prawf ar gyfer ymchwiliad diogelu o dan Ddeddf Plant 1989 neu Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, bydd y corff monitro yn adrodd arno fel pryder diogelu i’r awdurdod lleol perthnasol yn unol â fframweithiau diogelu statudol presennol.

Pan fydd corff monitro yn nodi unigolyn yn ystod arolygiad lle credwn y gallai fod achos o amddifadu o'i ryddid heb awdurdod, bydd y darparwr a'r corff cyfrifol perthnasol yn cael eu hysbysu.

Pan fydd corff monitro yn nodi unrhyw dueddiadau sy'n peri pryder yn y data ynghylch y ffordd y mae corff cyfrifol yn cyflawni ei swyddogaethau o dan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid, bydd y pryderon yn cael eu rhannu â'r corff cyfrifol yn y lle cyntaf. Er enghraifft, efallai y byddwn yn nodi nifer isel iawn o awdurdodiadau o dan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid gan gorff cyfrifol.

Pan nad yw'r corff cyfrifol yn ymateb i'r pryderon hyn neu os nad yw'n ymateb yn ddigonol, mae'n bosibl y bydd angen inni gael mynediad at gofnodion y mae'r corff cyfrifol yn eu cadw, a/neu efallai y byddwn yn defnyddio'r data i lywio gweithgarwch arolygu pellach.

Os bydd y corff monitro yn parhau i fod â phryderon, caiff gyfeirio ei bryderon at y Gweinidog Cymru perthnasol, a fydd yn ystyried a ddylai unrhyw bwerau presennol gael eu rhoi ar waith mewn ymateb i hynny.

Pan nodir diffygion mewn arferion darparwr, bydd arolygwyr hefyd yn ystyried a oes angen unrhyw arolygiad neu fonitro dilynol yn unol â’r arweiniad a dulliau arolygu cyhoeddedig perthnasol.

# Atodiad 1: Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Penodol

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

AGC yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Mae AGC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru i roi sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Mae AGC yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru. Mae AGC yn adolygu perfformiad awdurdodau lleol yng Nghymru o ran cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Daw prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGC o'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- Deddf Plant 1989 (fel y'i diwygiwyd)
- Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002
- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

Nod AGC yw:

- Darparu sicrwydd annibynnol ynghylch ansawdd ac argaeledd gofal cymdeithasol yng Nghymru;
- Diogelu oedolion a phlant, gan sicrhau bod eu hawliau'n cael eu hamddiffyn;
- Gwella gofal drwy annog a hyrwyddo gwelliannau yn niogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal cymdeithasol; a
- Llywio polisi a safonau a darparu cyngor proffesiynol annibynnol i bobl sy'n datblygu polisi, y sector cyhoeddus a'r sector gofal cymdeithasol.

Gwerthoedd craidd AGC yw sicrhau bod pobl wrth wraidd popeth a wnawn a phopeth rydym yn anelu at fod:

- Gofalgar: rydym yn dosturiol ac mae'n hawdd dod atom
- Teg: rydym yn gyson, yn ddiduedd ac yn gynhwysol
- Uniondeb: rydym yn onest ac yn ddibynadwy
- Proffesiynol: rydym yn fedrus, yn wybodus, ac yn arloesol
- Parch: rydym yn gwrando ar bobl, yn ymgysylltu â nhw ac yn eu gwerthfawrogi

## Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel un o gyrff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Prif nod Estyn yw codi safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn arolygu ystod o sectorau, gan gynnwys gwasanaethau addysg llywodraeth leol, ysgolion arbennig annibynnol ac a gynhelir, Unedau Cyfeirio

Disgyblion, a cholegau arbenigol annibynnol. Daw prif swyddogaethau a chyfrifoldebau Estyn o'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Addysg 2005 (lleoliadau addysg feithrin nas cynhelir, ysgolion a gynhelir, ac Unedau Cyfeirio Disgyblion)
- Deddf Addysg 2002 (ysgolion annibynnol)
- Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (darparwyr ôl-16)
- Deddf Addysg 1997 (awdurdodau lleol)
- Deddf Addysg 1994 (hyfforddiant athrawon)

Nod Estyn yw:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaethau ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Gwerthoedd Estyn yw ein bod yn:

- Rhoi dysgwyr wrth wraidd ein gwaith
- Gwrando, dysgu a gweithio gydag eraill
- Gweithredu'n agored, yn deg ac yn onest
- Dangos arweinyddiaeth a gwaith tîm effeithiol
- Hyrwyddo iechyd, llesiant a chydraddoldeb ym mhopeth a wnawn
- Gwerthfawrogi a pharchu pobl a'u gwaith
- Annog cyfrifoldeb, menter ac arloesedd

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**

AGIC yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ac, er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae protocolau wedi'u sefydlu i ddiogelu ei hannibyniaeth weithredol. Daw prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC o'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003;
- Deddf Safonau Gofal 2000 (a rheoliadau cysylltiedig);
- Deddf Iechyd Meddwl 1983 a 2007, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010;
- Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011;
- Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008; a
- Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 a Rheoliadau Diwygio 2018.

Nod AGIC yw:

- Darparu sicrwydd: Darparu barn annibynnol ar ansawdd y gofal
- Hyrwyddo gwelliant: Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arferion da

- Dylanwadu ar bolisi a safonau: Defnyddio yr hyn a ganfyddwn i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

Rôl graidd AGIC yw adolygu ac arolygu sefydliadau gofal iechyd y GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru i wirio bod cleifion, y cyhoedd ac eraill yn cael gofal diogel ac effeithiol sy'n bodloni safonau cydnabyddedig. Caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu mewn perthynas ag ystod o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau cyhoeddedig. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau a'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni hyn. Os bydd angen, bydd AGIC yn cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig lle mae'n ymddangos bod methiannau systematig o ran darparu gwasanaethau gofal iechyd i sicrhau bod gwelliant a dysgu cyflym yn digwydd.

Mae AGIC hefyd yn gyfrifol am gofrestru a rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae rheoleiddio sefydliadau o’r fath yn cael ei lywodraethu gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

## Atodiad 2: Materion Trawsffiniol – Cydweithio ag Ofsted a'r Comisiwn Ansawdd Gofal

Bydd AGC/Estyn ac AGIC yn gweithio mewn partneriaeth â'r Comisiwn Ansawdd Gofal ac Ofsted i gefnogi'r gwaith o fonitro ac adrodd ar y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid. Bydd hyn yn cynnwys cyfnewid gwybodaeth a data, atgyfeirio pryderon ar y cyd, a rhannu arferion gorau.

Bydd achosion pan fydd amddifadu o ryddid yn cael ei awdurdodi gan gorff cyfrifol yn Lloegr ar gyfer gofal a thriniaeth unigolyn sy'n byw yng Nghymru, ac i'r gwrthwyneb. Er enghraifft:

Mae'n bosibl bod awdurdod lleol yn Lloegr wedi asesu unigolyn o dan Ddeddf Gofal 2014 ac wedi penderfynu mai dim ond drwy lety o fath penodol (fel cartref gofal) y gellir diwallu ei anghenion gofal a chymorth a'i fod yn bwriadu darparu'r llety hwnnw yng Nghymru ac mewn amgylchiadau sy'n gyfystyr ag achos o amddifadu o ryddid. Mewn achos o'r fath, yr awdurdod lleol **yn Lloegr fydd y corff cyfrifol** a'r corff monitro fydd y Comisiwn Ansawdd Gofal neu Ofsted.

Pan fo'r unigolyn sydd wedi ei asesu gan awdurdod lleol yng Nghymru fel un sydd ag anghenion na ellir ond eu diwallu o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o fewn llety cartref gofal yn Lloegr, **yna awdurdod lleol yng Nghymru yw'r corff cyfrifol** a'r corff monitro fydd AGC.

Mae Llywodraeth Cymru a'r llywodraeth yn Lloegr wedi cytuno ar nifer o egwyddorion y dylid eu cymhwyso i bob lleoliad trawsffiniol. Ar gyfer Cymru, nodir hyn yn nogfen Cod Ymarfer Rhan 11 (Amrywiol a Chyffredinol).

# Atodiad 3 – Geirfa

### Person priodol

Mae'r person priodol yn darparu cynrychiolaeth a chefnogaeth i'r unigolyn yn ystod proses y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ac yn ystod awdurdodiad. Mae rôl y person priodol fel arfer yn cael ei chyflawni gan rywun sy'n agos at yr unigolyn a gall fod yn berthynas, yn ffrind neu'n unigolyn sydd ag atwrneiaeth neu ddirprwy llys.

### Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

AGC yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Mae AGC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru i roi sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Mae AGC yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru. Mae AGC yn adolygu perfformiad awdurdodau lleol yng Nghymru o ran cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

### Comisiwn Ansawdd Gofal

Y Comisiwn Ansawdd Gofal yw rheolydd annibynnol iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr.

### Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn arolygu ystod o sectorau, gan gynnwys gwasanaethau addysg llywodraeth leol, ysgolion arbennig annibynnol ac a gynhelir, Unedau Cyfeirio Disgyblion, a cholegau arbenigol annibynnol.

### Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

AGIC yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru. Mae AGIC yn arolygu, adolygu ac ymchwilio i wasanaethau'r GIG a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol ledled Cymru.

### Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol

Mae Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol yn eiriolwyr hyfforddedig sy'n darparu cymorth a chynrychiolaeth i unigolyn nad oes ganddo alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau penodol, pan nad oes gan yr unigolyn unrhyw un arall i'w gefnogi. Gall Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol hefyd gefnogi'r person priodol.

### Cyrff monitro

Yng Nghymru, y cyrff monitro sy'n gyfrifol am fonitro ac adrodd ar y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yw Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mewn perthynas â lleoliadau addysg, mae'r swyddogaeth hefyd yn cael ei chyflawni gan Estyn.

### Set Ddata Ofynnol Genedlaethol

Mae'r Set Ddata Ofynnol Genedlaethol yn cynnwys set o eitemau data allweddol ynghylch y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid y disgwylir i'r cyrff cyfrifol eu casglu. Mae'n cynnwys eitemau data ynghylch nodweddion gwarchodedig yr unigolion hynny lle bu cais i awdurdodi'r trefniadau gofal a thriniaeth sy'n gyfystyr ag achos o amddifadu o ryddid, lle nad oes gan unigolyn y galluedd meddyliol i gytuno i'r trefniadau hyn.

**Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted)**

Mae Ofsted yn arolygu gwasanaethau sy'n darparu addysg a sgiliau ac yn arolygu a rheoleiddio gwasanaethau sy'n gofalu am blant a phobl ifanc yn Lloegr.

**Corff cyfrifol**

Cyrff cyfrifol yw'r sefydliadau sy'n goruchwylio proses y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid. Yng Nghymru, y Bwrdd Iechyd Lleol fydd y corff cyfrifol os yw'r trefniadau'n digwydd yn bennaf yn yr ysbyty, yn bennaf drwy ofal iechyd parhaus y GIG neu mewn ysbyty annibynnol yng Nghymru. Yr awdurdod lleol fydd y corff cyfrifol ym mhob amgylchiad arall. Y corff cyfrifol fel arfer fydd yr awdurdod lleol sy'n diwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn neu, os nad oes awdurdod lleol yn diwallu anghenion yr unigolyn, yr awdurdod y mae'r trefniadau'n cael eu cyflawni ynddo'n bennaf fydd y corff cyfrifol.